TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Hyfforddiant Gyrwyr HGV / LGV CE (Dosbarth 1): Dilyniant o Gategori C (Dosbarth 2)




**Yn gryno**

Mae Cyfrif Dysgu Personol yn fenter newydd gan Lywodraeth Cymru. Bydd y fenter yn rhoi cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan amser, rhad ac am ddim sy'n cynnig ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu i gyd-fynd â'u ffordd bresennol o fyw.

Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i yrru cerbydau cymalog categori CE (Dosbarth 1) LGV, y categori cerbyd nwyddau mwyaf y gallwch ei gyflawni.

Cyfeirir yn gyffredinol at y cerbyd hwn fel lori gymalog, sydd fel rheol wedi ei gwneud o naill ai uned tractor gonfensiynol a threlar neu lori a threlar â bar tynnu arno (gwagen a cherbyd tynnu).

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... rheiny sy’n 19+ oed, yn byw yng Nghymru, yn gyflogedig, ac yn ennill llai na £32,371 y flwyddyn

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

… Unrhyw un sydd eisoes yn meddu ar drwydded yrru Categori C (Dosbarth 2) LGV, neu sydd eisiau mynd ymlaen at gategori CE (Dosbarth 1). Nid oes angen i chi fod wedi meddu ar eich trwydded categori C am gyfnod penodol o amser

… Gyrwyr cymwys sy'n awyddus i wella eu sgiliau a chyfoethogi eu rhagolygon gyrfa yn y diwydiant cludo fel gyrwyr cerbyd nwyddau mawr

**Cynnwys y cwrs**

Cwblheir yr hyfforddiant ymarferol i yrwyr ar sail 1 i 1 dros 2 ddiwrnod a hanner, yn cynnwys eich prawf ymarferol. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwch yn dysgu sut i wirio am ddiffygion, gyrru a symud cerbyd nwyddau mawr cymalog a dysgu i'w ddadfachu/ail-fachu'n ddiogel ac i'r safon ofynnol.

Mae dwy ran i'r prawf ymarferol:

ymarfer symud cerbyd am yn ôl mewn 'siâp S' i fae llwytho
gyrru ar y ffordd am 60 munud

Efallai y bydd angen i chi ddychwelyd er mwyn cwblhau eich cymhwyster Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol i Yrwyr os nad oes gennych gerdyn dilys.

**Gofynion Mynediad**

Mae'n ofynnol bod gennych drwydded (Dosbarth 2) C LGV er mwyn ymrestru ar y cwrs hwn. Os nad oes gennych y drwydded hon, gweler Hyfforddiant Gyrwyr LGV CE (Dosbarth 1): Mynediad Uniongyrchol o Gar.

Nid oes angen i chi gwblhau unrhyw brofion meddygol ychwanegol i yrwyr, ceisiadau dros dro na phrofion theori.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd yr opsiynau hyfforddiant yn dibynnu ar le'r ydych chi'n byw.